

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	09 CHWEFROR 2023
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2022/2023.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2022/23 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 25 Ionawr 2023 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	5
Gwaith Maes ar y gweill	14
Disgwyl Adolygiad	0
Adroddiad Drafft	0
Wedi ei gau	3
Adroddiad Terfynol	24
Cyfanswm	46

Canslwyd 15

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2023. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 25 Ionawr 2023 oedd **59%** - allan o'r **46** archwiliad unigol yng nghynllun 2022/23 roedd **27** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau, neu wedi cau.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Yn wreiddiol, rhagwelwyd bod oddeutu 932 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau Cynllun Archwilio 2022/23. Roedd hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio oedd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau 'di-gynnyrch' megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd. Fodd bynnag, oherwydd secondiadau staff i sefydliadau allanol, ynghyd â chyfnodau salwch hirdymor, 'roedd yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau yn deillio o'r lleihad yn yr adnoddau.
- 3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd i addasu neu canslo/gohirio'r archwiliadau canlynol hyd nes cynllun archwilio mewnol 2023/24.

Archwiliad	Dyddiau	Addasiad/Canslo
Trefniadau Diogelu- Sefydliadau	-4	Canslo
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	-5	Canslo
Trefniadau Talu ac Awdurdodi (Data Analytics)	-25	Canslo
Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio	-25	Canslo
Rheolaeth Categori Corfforaethol	-25	Canslo
Grant Datblygu Disgyblion	-10	Canslo
Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	-15	Canslo
Traffig a Phrosiectau	-10	Canslo
Gwasanaeth Cefn Gwlad	-10	Canslo
Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund)	-20	Canslo
Tîm Trawsffurfio	-20	Canslo
Asesiadau Staudol (AMHP)	-20	Canslo
Trefniadau Gwaith Glanhau Stryd	-15	Canslo
Trefniadau ar ddyletswydd Priffyrdd	-15	Canslo
Gwaith Mewndirol ac Arfordirol y Strategaeth FCERM Lleol	-10	Canslo
Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	-5	Addasiad (lleihau)

- 3.3 Mae archwiliad Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal (rhan 1 a 2) wedi ei ychwanegu at y cynllun – cyfanswm o 15 diwrnod.

- 3.4 Cynyddwyd y dyddiau a glustnodwyd ar gyfer archwiliadau Grant Addysg Ôl-16, Manddaliadau ac Ad-daliadau Treth Cyngor – cyfanswm o 8 diwrnod.
- 3.5 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a chaiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.
- 3.6 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg yn y cyfnod ansefydlog hwn.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2022/23, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL									
1-CORFF-09/2023/001	Cynghori ac Ymgynghoriaeth a Chefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	60.00	-5.00	55.00	4.04	5.89	9.93	45.07	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-11/2023/001	Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff	20.00	0.00	20.00	0.14	2.50	2.64	17.36	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-14/2023/001	Taliadau Cymorth Cyntaf	12.00	0.00	12.00	11.54	2.11	13.65	-1.65	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-19/2023/001	Trefniadau Diogelu- Sefydliadau	4.00	-4.00	0.00					Wedi ei ganslo
1-CORFF-20/2023/001	Cefnogi Adrannau-Gwasanaethau gyda trefniadau busnes yn dlyn pandemig Covid-19	15.00	0.00	15.00					Wedi ei gynllunio
1-CPGV-01/2023/001	Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021	12.00	0.00	12.00	2.31	9.69	12.00	0.00	Adroddiad Terfynol
1-CPGV-01/2023/002	Diogelwch Seicolegol	12.00	0.00	12.00	0.14	10.69	10.82	1.18	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-02/2023/001	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	50.00	0.00	50.00	2.57	16.69	19.26	30.74	Gwaith Maes ar y gweill
1-CTRT-01/2023/001	Rheolaeth Categori Corfforaethol	25.00	-25.00	0.00	0.00	0.92	0.92	-0.92	Wedi ei ganslo
2ADN-ADY-SAL/2023	Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio	25.00	-25.00	0.00					Wedi ei ganslo
2-ADN-CGC-DPA/2023	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	5.00	-5.00	0.00					Wedi ei ganslo
AN-ACY-03/2023/001	Trefniadau Talu ac Awdurdodi	25.00	-25.00	0.00	1.65	0.00	1.65	-1.65	Wedi ei ganslo
T-TAI-D01/2023/001	Cynllun Ffoaduriaid Wcrain	20.00	0.00	20.00	9.26	16.45	25.70	-5.70	Adroddiad Terfynol
ADDYSG									
Adnoddau									
4-DAT-X-ADD/2023/001	Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15.00	-15.00	0.00					Wedi ei ganslo
4-DAT-X-ADD/2023/002	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	-10.00	0.00	0.00	0.61	0.61	-0.61	Wedi ei ganslo
4-DAT-X-ADD/2023/003	Grant Addysg Ôl-16	3.00	2.00	5.00	0.00	5.00	5.00	0.00	Adroddiad Terfynol
Ysgolion									
4-DAT-CYLL/2023	Balansau Wrth Gefn Ysgolion	8.00	0.00	8.00					Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
EADDA21/2023/001	Cinio am Ddim	15.00	0.00	15.00	6.70	7.42	14.12	0.88	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA30/2023/001	Canolfan Fusnes Ysgolion	15.00	0.00	15.00	0.00	14.68	14.68	0.32	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA32/2023/001	Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	35.00	0.00	35.00	15.35	22.80	38.15	-3.15	Adroddiad Terfynol
EADDA32/2023/AA	AA - Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn	10.00	0.00	10.00	0.00	2.97	2.97	7.03	
EADDA35/2023/001	Ysgolion Cyffredinol	5.00	0.00	5.00	0.00	1.23	1.23	3.77	Wedi ei gynllunio
AMGYLCHEDD									
Cynllunio ac Amgylchedd									
DCYN-RD-01/2023/001	Cynllunio - Trefniadau Cyfathrebu	12.00	0.00	12.00	0.07	4.12	4.19	7.81	Gwaith Maes ar y gweill
Gwarchod y Cyhoedd									
BB-YSG-10/2023/001	Diogelwch Taccsis	15.00	0.00	15.00	11.99	3.16	15.15	-0.15	Adroddiad Terfynol
Trafnidiaeth a Chefn Gwlad									
3-AMG-GWLAD/2023/001	Gwasanaeth Cefn Gwlad	10.00	-10.00	0.00	0.00	0.86	0.86	-0.86	Wedi ei ganslo
3-AMG-GWLAD/2023/002	Traffig a Phrosiectau	10.00	-10.00	0.00	0.07	0.00	0.07	-0.07	Wedi ei ganslo
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL									
Democratiaeth									
BB-YSG-18/2023/001	Hyfforddi Aelodau	10.00	0.00	10.00	11.39	3.16	14.55	-4.55	Adroddiad Terfynol
BB-YSG-18/2023/02	Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar Aelodau	12.00	0.00	12.00	8.96	3.04	12.00	0.00	Adroddiad Terfynol
CYLLID									
Ar draws yr adran									
AW-TG-12/2023/001	Diogelu Data	15.00	0.00	15.00	9.38	5.27	14.65	0.35	Gwaith Maes ar y gweill
Cyfrifeg									
AN-ACY-08/2023/001	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2021-22	4.00	0.00	4.00	3.77	0.00	3.77	0.23	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2023/002	Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2021-22	4.00	0.00	4.00	4.03	0.00	4.03	-0.03	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau									
AL-CYF-18/2023/001	Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	10.00	0.00	10.00	3.62	0.00	3.62	6.38	Adroddiad Terfynol
AL-CYF-18/2023/002	Taliadau Ychwanegol i Weithwyr Gofal	15.00	0.00	15.00	4.39	6.32	10.72	4.28	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
Refeniw									
AB-BD-01/2023/001	Taliadau Hunanynysu	100.00	0.00	100.00	83.88	0.00	83.88	16.12	
AB-BD-01/2023/002	Taliadau Cymorth Costau Byw	8.00	0.00	8.00	0.00	3.12	3.12	4.88	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2023/001	Ad-daliadau Treth Cyngor	12.00	1.00	13.00	0.00	13.61	13.61	-0.61	Adroddiad Terfynol
Technoleg Gwybodaeth									
AW-TG-06/2023/002	Ransomware	12.00	0.00	12.00	9.68	5.51	15.19	-3.19	Adroddiad Terfynol
ECONOMI A CHYMUNED									
Adfywio Cymunedol									
EADDZ-01/2023/001	Cronfa'r Degwm	3.00	0.00	3.00	3.00	0.00	3.00	0.00	Adroddiad Terfynol
Amgueddfeydd ac Oriolau									
EDIW-OR-01/2023/001	Amgueddfa Lloyd George	3.00	0.00	3.00	0.34	2.64	2.97	0.03	Adroddiad Terfynol
EDIW-TS-01/2023/001	Neuadd Dwyfor	12.00	0.00	12.00	0.00	11.99	11.99	0.01	Gwaith Maes ar y gweill
Rhaglenni Datblygu Economaidd									
DDAT-AD-02/2023/001	Cronfa Ffyniant Gyffredin	20.00	-20.00	0.00					Wedi ei ganslo
EHAMT-01/2023/001	Cynllun Rheoli Traethau	12.00	0.00	12.00	0.00	11.88	11.88	0.12	Adroddiad Terfynol
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT									
Ar draws yr adran									
AE-TAL-06/2023/001	Defnydd o Arian Parod	15.00	0.00	15.00	0.86	16.14	17.00	-2.00	Adroddiad Terfynol
GCC-02/2023/001	Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid	8.00	0.00	8.00	0.64	5.30	5.93	2.07	Gwaith Maes ar y gweill
GDAPR-GC05/2023/001	Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff	15.00	0.00	15.00	0.00	14.03	14.03	0.97	Gwaith Maes ar y gweill
Busnes									
5-GOF-BUS/2023/001	Tîm Trawsffurfio	20.00	-20.00	0.00					Wedi ei ganslo
Preswyl a Dydd									
5-GOF-CART1344/2023	Plas Gwilym	12.00	0.00	12.00	0.20	11.88	12.08	-0.08	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1350/2023	Hafod Mawddach	12.00	0.00	12.00	0.27	12.69	12.96	-0.96	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1355/2023	Bryn Blodau	12.00	0.00	12.00	6.14	7.27	13.41	-1.41	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Ar amserlen, heb eu gosod	Cyfanswm Tybiannol	Ar ôl	Statws yr Archwiliad
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD									
Plant a Theuluoedd									
GGWAS-P06/2023/001	Asesiadau Statudol (AMHP)	20.00	-20.00	0.00	0.00	2.73	2.73	-2.73	Wedi ei ganslo
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL									
Ar draws yr adran									
PZ02/2023/001	Clefyd Coed Ynn	12.00	0.00	12.00	0.00	9.20	9.20	2.80	Gwaith Maes ar y gweill
Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol									
PZ01/2023/001	Trefniadau Ar Ddyletswydd - Priffyrdd	15.00	-15.00	0.00					Wedi ei ganslo
Gwaith Bwrdeistrefol									
PBW-07/2023/001	Trefniadau Gwaith Glanhau Stryd	15.00	-15.00	0.00					Wedi ei ganslo
Rheoli Gwastraff a Strydoedd									
PBW-05/2023/001	Incwm Masnachol	10.00	0.00	10.00					Wedi ei gynllunio
TAI AC EIDDO									
Digartrefedd a Tai Cefnogol									
GDAPR-SP01/2023/001	Grant Cymorth Tai	10.00	0.00	10.00	7.08	2.91	9.99	0.01	Adroddiad Terfynol
Tai a Llesiant									
T-TAI-G10/2023/001	Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf	15.00	0.00	15.00	0.84	17.88	18.72	-3.72	Adroddiad Terfynol
Tir ac Eiddo'r Cyngor									
BA-EID-04/2023/001	Manddaliadau	15.00	5.00	20.00	0.00	16.97	16.97	3.03	Gwaith Maes ar y gweill
TÎM ARWEINYDDIAETH CORFFORAETHOL									
Gwasanaethau Cyfreithiol									
BB-YSG-16/2023/001	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	8.00	0.00	8.00	5.57	4.34	9.91	-1.91	Adroddiad Terfynol
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD									
Ar draws yr adran									
PYMG-CON/2023/001	Trefniadau Rheoli Prosiectau	8.00	0.00	8.00	0.00	5.88	5.88	2.12	Gwaith Maes ar y gweill
PYMG-CON/2023/002	Gwaith Mewndirol ac Arfordirol - Strategaeth Llifogydd a Rheoli Risg	10.00	-10.00	0.00	0.00	2.77	2.77		Wedi ei ganslo